

Duw yn Cynnal

Adnodau agoriadol:

“Ystyriwch lili'r maes,
pa fodd y maent yn tyfu;
nid ydynt yn llafurio
nac yn nyddu.

Ond rwy'n dweud wrthyich,
nid oedd gan hyd yn oed
Solomon yn ei holl ogoniant
wisg i'w chymharu
ag un o'r rhain.

Os yw Duw yn dilladu felly
laswellt y maes,
sydd yno heddiw,
ac yfory yn cael ei daflu i'r ffwrn,
onid llawer mwy y dillada chwi,
chwi o ychydig ffydd?”

Mathew 6: 28 – 30.

Geiriau agoriadol:

O wybod bod Duw yn cynnal ei greadigaeth ac yn gofalu am adar yr awyr a blodau'r maes, gallwn ollwng ein holl ofalon a'n pryderon arno ef ac ymddiried ein hunain i'w ofal.

Cofiwch fod cariad Duw yn lapio amdanoch, a'i fod yn gwybod eich holl anghenion.....

Meddyliwch am y pethau sy'n achosi pryder i chi a rhannwch hwy â Duw.....

Gweddïau agoriadol:

Dduw, ein cynhaliwr
a rhoddwr pob bendith:
am i ni weld ôl
dy gariad a'th ofal

ym mhethau syml bywyd –
yn lliwiau'r blodau
yng nghân yr aderyn,
yng ngwres yr haul
ac yn ffresni'r glaw:
Arglwydd, diolchwn i ti.

Am dy holl ddoniau i ni:
am fywyd â'i fendithion
o iechyd i egni;
am gyfoeth y ddaear
a bwyd i'n cadw'n fyw;
am gyfeillgarwch,
am gwmni anwyliaid
ac am bob cyfle
i wneud daioni
Arglwydd, diolchwn i ti.

Am y goleuni a'r gras
a ddaeth i ni yn lesu;
am efengyl dy gariad,
am faddeuant pechodau,
am gymod â thi,
am ddoniau dy Ysbryd,
am gymdeithas dy bobl,
am foddion gras
ac am obaith gogoniant.
Arglwydd, diolchwn i ti. Amen.

Emyn: 119 Caneuon Ffydd.

Munud i feddwl:

Rhai da ydi'r beiciau sydd ar gael i blant bach ddysgu reidio. Mae 'na ddau brif olwyn ac o gwmpas yr olwyn ôl, mae dau arall – y sadwyr. Rhain sy'n sadio'r beic a'i gadw'n ddiogel rhag iddo syrthio ar ei ochr. Ond daw y dydd pan fydd y plentyn yn awyddus i gael gwared â'r

sadwyr er mwyn cael bod yr un fath â'r plant mawr. Neu i gael bod yr un fath a dad, efo beic dau olwyn yn unig. Ond proses anodd yw hi. I'r plentyn a hefyd i'r rhiant. Am gyfnod wedi tynnu'r sadwyr, mae'r plentyn yn anghyffyrddus. Ambell dro, mae'n syrthio a'r dagrau'n llifo. Dro arall mae ofn mynd ar gefn y beic. Colli'i hyder. Mae'n gyfnod anodd i'r rhiant hefyd. Ofn i'r plentyn anafu ei hun. Ofn iddo golli'r awydd i fynd ar gefn ei feic. Yr unig ffordd i dawelu'r ddau, y plentyn a'r rhiant, ydy perswadio'r plentyn y bydd y rhiant yn addo cadw wrth ei ochr wrth iddo wyro o'r naill ochr i'r llall. Yno i'w gynnal rhag ofn y byddai'n colli'i falans. Mor braf ydi cael rhywun wrth ein hochr, i'n cynnal, pan nad ydyn ni'n siŵr o'n ffordd, pan mae'n hyder yn rhoi a ninnau'n teimlo'n hunain yn llithro a syrthio. Llawenydd yw gwybod fod yna rywun sy'n barod i'n codi a'n cynnal. Ar hyd yr oesoedd, dyna addewid Duw, "Wele yr wyf gyda chwi bob amser hyd diwedd y byd." Y cynhaliwr sydd yno bob amser.

Darllen:

Eseia 41: 13

Eseia 42: 6

Salm 94: 18

Salm 73: 23

Salm 30: 1

Gweddi:

O Dduw, annwyl

diolch i ti

am dy gynhaliaeth gyson,

am dy sicrwydd

dy fod ti yno bob amser

i gefnogi, cryfhau a chynnal.

Diolch, ein bod wedi darganfod

pa mor wir yw hynny yn ein bywydau.

Am y cadarnhad dy fod yn cynnal bob amser.

Mor aml wyt ti wedi'n cynnal

pan oedden ni'n

wan,
yn ddiymadferth,
yn sigledig.
Dy gynhaliaeth
yn awr ein hofnau,
yn wyneb anawsterau,
pan oedd ein ffydd
yn gwegian.

Dysg ni,
o brofiadau'r gorffennol,
y profiadau sydd wedi'n
dyrchafu a'n codi,
i ymddiried
fwy fwy ynot ti.
Beth bynnag fyddi di'n
ofyn i ni yn y dyfodol,
byddwn yn ei wynebu'n hyderus
gan wybod
y byddi'n gafael yn ein llaw,
ac yn ein cynnal
bob cam o'r daith. Amen.

Cydadrodd neu gydganu Gweddi'r Arglwydd:

Darllen: Mathew 6: 25 – 34.

Emyn: 120 Caneuon Ffydd.

Anerchiad:

Neges ganolog y darn a ddarllenwyd o efengyl Mathew yw, 'Na phryderwch'. Peidiwch â phoeni. Nid gwarafun i ni fod yn ddarbodus mae Iesu; nid gwarafun i ni fod yn ofalus chwaith. Nid condemnio gofal mae Iesu ond condemnio gorofal a gorbryder.

Mae'r gofal hwn yn codi oherwydd ein bod yn ceisio bod yn deyrngar i ddau arglwydd. Mae un llygad ar drysorau'r byd a'r llall ar drysorau'r nefoedd. Rydyn ni ofn colli golud y ddaear a golud y nefoedd. Anodd iawn yw gwasanaethu dau arglwydd.

Nid yn unig mae gorofal a gorbryder yn bethau sy'n gwneud drwg i ni ond mae hefyd yn bechod. Golyga ddiffyg ffydd yn Nuw. Dweud y mae lesu fod yr adar a'r blodau yn rhagori arnon ni os mai gorbryderu a wnawn ni.

Mae lesu yn siarad o brofiad. Mor hunan-feddiannol oedd lesu yn nannedd y storm ar Fôr Galilea? Diffyg ffydd y disgyblion oedd yn creu'r panig a'r gorbryder.

Ond beth amdanon ni, pa mor hawdd yw darbwylllo'n hunain a darbwylllo eraill i beidio â phryderu? Beth amdanon ni pan fyddwn mewn argyfwng? Poeni a phryderu ydi'n hanes bob tro. Mor anodd yw peidio â phryderu. Wrth gwrs, mi fyddwn i'n dweud wrth hwn a'r llall, 'O! peidiwch â phoeni, mi ddaw pethau'n iawn yn y man' neu 'Dydi poeni ddim yn mynd i helpu o gwbl.' Mor hawdd ydi dweud hynny!

Yn y rhan yma o'r Bregeth ar y Mynydd, lesu ei hun sy'n cymell. Un a wynebodd sarhad a dicter y dorf. Un a wynebodd ingoedd a phrofedigaethau. Nid un yn cymell o'r gadair freichiau esmwyth mewn parlwr ond un sy'n cymell o gynddaredd y storm, sy'n ein hannog i beidio a gorbryderu a gorofalu.

Faint gwell ydyn ni o orbryderu? Ni allwn ychwanegu un funud at ein hoes. Mae yna gyfyngiadau ac mae'n rhaid eu derbyn. Ni allwn frwydro'n eu herbyn, a'r gamp yw eu troi yn gyfleusterau ac yn gyfleoedd newydd. Carcharwyd Bonhoeffer a throdd cell ei garchar yn oleuni i geisio dehongli a deall neges i'w oes a'i gyfnod. Llwyddodd Kagawa i orchfygu ei anhwylder a gweini, gydol ei oes, ar y tlawd a'r digartref yn Tokyo. Troi'r felltith yn fendith. Nid trwy bryderu am eu diffygion y gorchfygodd Bonhoeffer a Kagawa eu hanhwylderau ond trwy fwrw iddi a gweld y diffyg yn gyfle newydd.

Beth sy'n peri pryder i ni'r dyddiau hyn? Arian – dim digon o gyflog! Llwyddiant – ddim wedi gwneud yn ddigon da i gael swydd! Gallwn fynd ymlaen. Pryder am y materol. Pryderu wnawn am y bwyd ac nid am y bywyd, am y dillad ac nid am y corff. Pryder y rhieni yw dyfodol eu plant – pa goleg, pa swydd? Pryder yr ieuenctid yw pa ffôn

symudol, pa ipod, pa gar! Pa fath o dŷ, pa fath o forgais? Neges ganolog Iesu yw, petai'n bywyd ysbrydol ar delerau iawn â Duw yna ni fyddai'n rhaid i ni boeni am ein hamgylchiadau materol, "A rhoir y pethau hyn i gyd yn ychwaneg i chwi" (adn 33). Mi ddaw y pethau eraill i gyd yn sgil ein perthynas â Duw.

Mae'n werth cloi gyda stori. Ar y ffordd, roedd gŵr yn ei garpiâu. Daeth dyn pwysig heibio a chyfarch y gŵr carpiog, "Boed i Dduw roi diwrnod da i ti." Atebodd yntau, "Rwy'n ddiolchgar iawn nad wyf erioed wedi cael profiad o ddiwrnod diflas." Meddai'r dyn pwysig, "Boed i Dduw roi bywyd hapus, pleserus i ti." "Dydw i byth yn drist," atebodd y gŵr carpiog. "Beth wyt ti'n feddwl?" "Wel, pan fydd hi'n braf, byddaf yn diolch i Dduw, pan fydd hi'n bwrw, rhoddaf ddiolch. Pan fydd gennyf ddigon, rhoddaf ddiolch, pan fyddaf yn newynu, rhoddaf ddiolch. Gan mai ewyllys Duw yw f'ewyllys i, a beth bynnag sy'n fy mhlesio i, yn ei blesio ef, pam y dylwn i ddweud fy mod yn drist a minnau ddim?" "Pwy wyt ti?" gofynnodd y gŵr pwysig. "Y Brenin" oedd yr ateb. "Ble mae dy deyrnas felly?" Atebodd y dyn carpiog yn dawel, "yn fy nghalon."

Cyfnod o ddistawrwydd i fyfrio:

Cwestiynau i'w trafod:

Sut fyddech chi'n dehongli beth yn union yw cynhaliaeth Duw? Sut mae esbonio hyn i rywun mewn trafferthion neu argyfwng?

Fyddech chi'n mynd cyn belled â dweud fod gorbryder a gorofal yn bechadurus? Beth yw eich diffiniad chi o bechod?

Ym mha ffyrdd ydych chi'n gweld llaw a chynhaliaeth Duw o'ch cwmpas (a) yn eich bywyd personol (b) ym mywyd y byd?

Ydi Duw yn gofalu am yr adar a'r blodau? Ydi Duw yn gwisgo'r lili ac yn gofalu am aderyn y to? Pa mor wir yw'r cwpled hwn, 'Cwyd aderyn bach o'i nyth/am fod Duw yn dirion byth'? Beth yn union yw neges Iesu am yr adar a'r blodau?

Pa mor wir yw'r hen ddywediad Seisnig, 'Edrychodd dau ddyn drwy ffenestr cell y carchar. Gwelodd un y llaid. Gwelodd llall y sêr?' Un yn gweld yr hagrwch a'r llall yn gweld yr harddwch. Troi'r felltith yn fendith. Mae'r jwg yn hanner gwag neu'n hanner llawn! Gweld ein cyfle. I ba un ydych chi'n perthyn?

Cyfnod o ddistawrwydd i fyfrio.

Gweddï:

O! Arglwydd, una'n hysbryd ni ag ysbryd Iesu Grist, dy fab Di, a mab dyn, ein Duw a'n Brawd; fel trwy yr undeb agos a bywiol hwnnw y dysgom ni garu fel y carodd Ef, a bendithio fel y bendithiodd Ef, a gweddïo fel y gweddïodd Ef.

Pwy sydd gennym yn y nefoedd ond Tydi? Ac ni ewyllysiasom ar y ddaear neb gyda Thydi. Pallodd ein cnawd a'n calon, ond nerth ein calon a'n rhan yw Duw yn dragywydd.

Holl derfynau y ddaear a gofiant ac a droant atat Ti, a holl dylwythau'r cenhedloedd a addolant ger dy fron; canys eiddot Ti yw y deyrnas, a Thydi sy'n llywodraethu ymhlith y cenhedloedd.

Agos wyt Ti at y rhai oll a alwant mewn gwirionedd; Ti a wnei ewyllys y rhai a'th ofnant, Ti a wrandewi eu llefain, ac a'u hachubi.

Gostwng dy glust, O! ein Duw a chlyw; oblegid nid oherwydd ein cyfiawnderau ein hunain yr ydym ni yn tywallt ein gweddïau ger dy fron, eithr oherwydd dy aml drugareddau Di. I Ti, Arglwydd, y perthyn cyfiawnder, ond i ni, gywilydd wyneb, oherwydd inni bechu yn dy erbyn. Os dywedwn nad oes ynom bechod, yr ydym yn ein twyllo ein hunain a'r gwirionedd nid yw ynom. Os cyfaddefwn ein pechodau, ffyddlon wyt Ti a chyfiawn, yn maddau inni ein pechodau ac yn ein glanhau oddi wrth bob anghyfiawnder.

Am hynny, maddau inni ein pechodau a gwrando'n deisyfiadau, er mwyn yr lawn a'r Eiriolwr, Iesu Grist y Cyfiawn. Amen.

Gweddïau a Salmau.

Emyn: 274 Caneuon Ffydd.

Gweddi:

Arglwydd,
cymorth y gwan â chynhaliwr yr eiddil,
clyw ein gweddi yn awr
dros y rhai sy'n fawr ei gofal am anwyliaid.
Diolch i ti am y rhai sydd wedi rhoi
blynyddoedd o'u bywydau i ofalu am geraint methodig:
pan fo'r gofal yn drwm a'r gorffwys yn brin,
gofynnwn i ti roi iddynt o'th nerth;
pan fo'r claf yn anhapus a checrus,
rho iddynt o'th amynedd i ddal i garu a gofalu.
Diolchwn i ti am bob trefniant a wneir i estyn cymorth iddynt:
am ysbytai a chartrefi sy'n derbyn rhai methodig dros dro
i roi ysbaid i'w gofalwyr,
am ofalwyr proffesiynol a nyrsys ardal
sy'n galw'n rheolaidd i weini yn y cartref;
diolchwn yn arbennig am y cariad sy'n ysgogi'r gwaith.
Gwna ni'n ymwybodol o'u hunigrwydd a'u hangen,
ac yn barod i gynorthwyo yn ôl ein gallu.
Gwna ni'n barod i golli oedfa neu gyfarfod
er mwyn galluogi rhywun arall i fod yn bresennol.
Dysg ni i werthfawrogi'r aberth a wnânt a'u calonogi ynddo.
Rho i bob un ohonom y cariad a ddangosaist ti i ni –
cariad sy'n barod i aberthu er mwyn eraill.

M. Angharad Roberts, Gweddïo, 1997

Emyn: 825 Caneuon Ffydd.

Y Fendith:

Am dy fod yn cynnal
a chyfoethogi'n bywyd,
cadw ni rhag pob pryder,
a gwna ni wastad
yn ddiolchgar. Amen.